# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 20 Mawrth, 2020

**TEITL:** *Tîm Gogledd Cymru - Gweithio Gyda'n Gilydd*

**AWDUR:** *Alwen Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen*

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Amlinellu'r angen i fireinio Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Cymeradwyo'r Gylch Gorchwyl ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.

2.2. Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o weithgareddau i fireinio Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol a'r tîm rhanbarthol Llywodraeth Cymru wedi cytuno ac yn cynnig bod Llywodraeth Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i fireinio Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a chyd-ddylunio a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

4.2. Mae swyddogion y Swyddfa Rhaglen ac o Lywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar Gylch Gorchwyl (***Atodiad 1***) sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth i ddatblygu ac yna chyflawni yn erbyn un Fframwaith Economaidd Rhanbarthol cyffredin i Ogledd Cymru.

4.3. **Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru**

4.3.1 Mabwysiadwyd y "Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru" ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn amlinellu uchelgais gyfunol a strategol ar gyfer y Gogledd er mwyn datblygu seilwaith, sgiliau a chyflogaeth a thwf busnes.

4.3.2. Mae'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol wedi adnabod yr angen i fireinio'r Weledigaeth Twf. Bydd y gwaith mireinio hwn yn datblygu ac yn diweddaru'r weledigaeth gyfredol, ac yn ystyried beth sydd wedi newid ers 2016 a'n huchelgais ar gyfer 2035. Mae hyn yn amserol, yn enwedig yn sgil newidiadau allanol mawr a fydd yn effeithio ar ranbarth y Gogledd, sef gadael yr UE a'r targed dim-carbon net erbyn 2050 a Llywodraeth Cymru yn datgan argyfwng newid hinsawdd.

4.3.3. Drwy'r gwaith o ddatblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae gennym ysbryd gwych o gydweithio yn y rhanbarth, y gellir ei ddatblygu ymhellach er mwyn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r Gogledd. Yn ogystal, rydym yn cydnabod yr angen i ddod â phartneriaid ychwanegol i mewn i weithio gyda ni ar rai o'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u hadnabod, er enghraifft, yr economi sylfaenol a'r economi gwledig.

4.3.4 Bydd y Weledigaeth Twf ddiwygiedig ar gyfer y Gogledd yn cyd-fynd â naratif ar y cyd ar gyfer y rhanbarth, ac yn ei weithredu, a fydd yn pwysleisio ac yn atgyfnerthu cyfoeth y cyfleoedd, ein diwylliant, ein tirwedd a'n hiaith.

4.4. **Fframwaith Economaidd Rhanbarthol**

4.4.1. Mae Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r sail ar gyfer dull gweithredu rhanbarthol i ddatblygu'r economi. Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd wedi'i ffurfio yn ôl egwyddorion allweddol ac un o'r rheini yw Gweithio'n Rhanbarthol, gydag angen i gyflawni llais rhanbarthol cryfach drwy fodel datblygu'r economi sy'n canolbwyntio ar y rhanbarth, gan ddatblygu a gwella'r gwaith ar draws y llywodraeth sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r rhanbarthau.

4.4.2. Mae Prif Swyddog Rhanbarthol wedi'i phenodi yn y Gogledd, gyda rôl i gyflawni fframwaith economaidd rhanbarthol a fydd yn adnabod blaenoriaethau rhanbarthol a chyfleoedd o fewn y rhanbarth.

4.4.3. Bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn rhoi un farn gydlynol am yr anghenion a'r cyfleoedd yn y Gogledd, a fydd yn medru dylanwadu ar bolisïau ac ymyraethau cenedlaethol yn uniongyrchol, a'u hysbysu. Bwriedir hefyd i'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, dan y Weledigaeth Twf ddiwygiedig ar gyfer Gogledd Cymru, fynegi'n glir ein rolau a'n cyfrifoldebau unigol wrth gyflawni yn erbyn y weledigaeth.

4.5. **Rhaglen o Weithgareddau**

4.5.1. Er mwyn cefnogi'r uchelgais i gyd-gyflawni a chyd-ddylunio'r Weledigaeth Twf ddiwygiedig a datblygu Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, rydym wedi cynnig rhaglen o weithgareddau (gweler y manylion yn ***Atodiad 2***).

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim.

## 9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD

9.1. Cylch Gorchwyl Drafft: Trafodwyd y rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd ar gyfer Gogledd Cymru yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 07/02/2020 a thrafodwyd y Rhaglen arfaethedig o Weithgareddau yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 06/03/2020.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Cylch Gorchwyl - Gweithio'n Rhanbarthol |
| **Atodiad 2** | Rhaglen Arfaethedig o Weithgareddau |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."